

Fforwm y Sir Rhaglen

Dyddiad: Dydd Iau 10 Mai 2018

Amser: 6.30pm - 8.30pm

Lleoliad: Swyddfeydd Cyngor y Dref, Adeilad y Ceï, Ffordd Fron, Ceï Connah, Sir y Fflint, CH5 4PJ

Yn Cynnal / Cadeirio: Cyngor Tref Ceï Connah

1. Adolygiad Cenedlaethol

1A. **Adolygiad o Sector Cyngorau Tref a Chymuned yng Nghymru - Claire Germain, Llywodraeth Cymru / Colin Everett, Cyngor Sir y Fflint**

Pwrpas:

- Darparu trosolwg o'r adolygiad cenedlaethol ac annog ymateb gan Gyngorau Tref a Chymuned.
- Hwyluso trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â phedwar cwestiwn yr Adolygiad.

2. Materion y Cyngor

2A. **Adolygiad Siarter: Cymuned a Rennir – Siarter ar y Cyd rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyngorau Tref a Chymuned - Colin Everett / Karen Armstrong**

Pwrpas:

- Rhoi diweddariad byr ar gynnydd y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i adolygu'r Siarter a'r Cynllun Gweithredu ar ran Fforwm y Sir
- Cymeradwyo'r Siarter Ddiwygiedig

2B. **Diweddariadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Colin Everett**

Pwrpas:

- Darparu diweddariad byr ar gynrychiolaeth Cyngorau Tref a Chymuned ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint
- Darparu diweddariad byr ar ddatblygiad Cynllun Lles Sir y Fflint.

2C. Sefyllfaoedd cyllidebau cenedlaethol a lleol - Colin Everett

Pwrpas:

- Darparu diweddariad byr ar y sefyllfa ddiweddaraf.

2D. Tudalennau gwe Fforwm y Sir - Diweddariad dogfen - Gareth Owens

Pwrpas:

- Darparu diweddariad i Gyngorau Tref a Chymuned ynglŷn â dogfennau diweddar sydd wedi'u hychwanegu at dudalen we Fforwm y Sir mewn perthynas ag ymddygiad.

2E. Gwerth blaenoriaethau ardal wedi'u cyd-ddylunio - Ian Bancroft

Pwrpas:

- Rhoi diweddariad ar y trafodaethau cynnar ynglŷn â gwerth blaenoriaethau a phroffiliau ardal wedi'u cyd-ddylunio.

2F. Cynllunio Cymunedol - Chris Bradshaw / Kevin Hughes, Cyngor Cymuned Gwernymynydd

Pwrpas:

- Darparu trosolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r gwaith gwydnwch a wnaed.

2G. Adolygiad y Gwasanaeth Bws - Stephen O'Jones

Pwrpas:

- Darparu diweddariad ar Adolygiad y Gwasanaeth Bws a'r ymgynghoriad.

3. Eitemau Cyngorau Tref a Chymuned

Eitemau a gyflwynwyd gan Gyngorau Tref a Chymuned.

- **Atgyweirio Tyllau mewn Ffyrdd – Cyngor Cymuned Cilcain**
 - A oes unrhyw newidiadau y gall Cyngor Sir y Fflint eu gwneud i wella'r system atgyweirio bresennol?
- **Cyllid Cynnal a Chadw Priffyrdd – Cyngor Cymuned Cilcain**
 - A yw Cyngor Sir y Fflint wedi methu yn ei ymgais i geisio cyllid ychwanegol gan Gynulliad Cymru i ddelio â'r sefyllfa o gynnal a chadw'r ffyrdd sy'n dirywio?

- Pan fo llifogydd mawr yn digwydd mewn ardal, mae Cynulliad Cymru'n aml yn darparu cyllid ychwanegol i ddelio â chanlyniadau'r llifogydd. Onid oes trefniadau tebyg ar gael i ddelio â phroblemau cynnal a chadw ffyrdd mewn argyfwng?

- **Speed Watch Cymunedol – Cyngor Cymuned Argoed**

4. **Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

Dyddiad: Nos Fawrth 19 Mehefin 2018

Amser: 6.30pm - 8.30pm

Cadeirydd: Cyngor Cymuned Coed-llai a Phontblyddyn

Lleoliad: Canolfan Gymunedol Coed-llai, King Street, Coed-llai, Sir y Fflint, CH7 4SB

Dyddiad: Nos Iau 4 Hydref 2018

Amser: 6.30pm - 8.30pm

Cadeirydd: Cyngor Tref Saltney

Lleoliad: Canolfan Gymunedol Douglas Place, Woodhall Avenue, Saltney, Sir y Fflint, CH4 8NB.

Eitemau arfaethedig ar gyfer y Rhaglen – 19 Mehefin 2018:

- Cyflwyniad gan DEWIS i ddangos ei werth fel adnodd i wella iechyd a lles (**Kate Howard**)
- Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer Sir y Fflint (**Fiona Mocko**)